| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MEHEFIN 2014** |
| **TEITL** | **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH SAN STEFFAN (DCLG) AR Y CYFLEON AM GYDWEITHIO, ARBEDION COST AC EFFEITHLONDEB YN Y CPLLL (LGPS)** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDIADAU** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol bod yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru wedi bod yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd. Roedd canlyniadau'r prosiect wedi dangos bod cydweithio yn ffordd ymlaen a'r bwriad oedd cynhyrchu achos busnes ar gyfer yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, rhoddwyd hwn i'r naill ochr pan ddaeth yn glir y byddai'r Llywodraeth yn cynhyrchu dogfen ymgynghori.

1.2 Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ddogfen ymgynghori ynglŷn â'r cyfleoedd, arbedion costau ac effeithlonrwydd ar gyfer y CPLlL yng Nghymru a Lloegr. Cred y Llywodraeth bod yn bosib cyflawni arbedion sylweddol o dros £660 miliwn y flwyddyn drwy ddiwygio'r CPLlL.

1.4 Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at bob parti sydd â diddordeb yn y CPLlL a'r diwrnod olaf i gyflwyno ymatebion yw 11 Gorffennaf 2014. Caiff yr ymatebion eu dadansoddi a chyhoeddir ymateb gan y Llywodraeth. Petai angen unrhyw ddiwygiad deddfwriaethol, bydd ymgynghoriad pellach yn dilyn.

1.5 Mae Hymans Robertson ac Aon Hewitt wedi cyhoeddi eu barn ar y cynigion a chyhwysir fel Atodiad A ac Atodiad B er gwybodaeth.

## 2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Mae'r papur ymgynghori yn nodi pecyn o gynigion fel a ganlyn:

- Sefydlu cyfryngau buddsoddi cyffredin er mwyn rhoi mecanwaith i gronfeydd gael mynediad at ddarbodion maint, gan eu cynorthwyo i fuddsoddi'n fwy effeithiol mewn asedau rhestredig ac asedau eraill ac i leihau'r costau buddsoddi.
- Lleihau'n sylweddol y ffioedd buddsoddi a chostau eraill buddsoddi drwy ddefnyddio rheolaeth oddefol ar gyfer yr asedau rhestredig gan fod perfformiad y gronfa gyfanredol wedi dangos ei fod yn efelychu'r farchnad.

- Cedwir dyrannu asedau gydag awdurdodau'r gronfa leol a sicrhau bod data mwy tryloyw a chymaradwy ar gael i weld gwir gostau buddsoddi a gyrru effeithlonrwydd pellach yn y Cynllun.
- Bwriedir peidio â mynd ar ôl uno cronfeydd yr adeg yma.

2.2 Yn ychwanegol at leihau costau'r gronfa, mae'r papur ymgynghori yn gofyn i ymatebwyr ystyried diffygion y gronfa a sut y gellir gwella'r lefelau cyllido.

## 3. CYNNIG 1: CYFRYNGAU BUDDSODDI CYFFREDIN

3.1 Cred y Llywodraeth bod manteision clir i gronfeydd uno eu hasedau mewn cyfryngau buddsoddi cyffredin i bob dosbarthiad o asedau ond bod yr holl benderfyniadau ynghylch dyrannu asedau yn aros gydag awdurdodau'r cronfeydd.

3.2 Mae tystiolaeth a roddwyd gan Hymans Robertson yn eu hastudiaeth i'r Llywodraeth yn dangos bod enillion ychydig yn uwch i'w cael dros 10 mlynedd os oedd y cronfeydd yn cael eu trefnu drwy un cyfrwng buddsoddi cyffredin ar gyfer asedau rhestredig ac un arall ar gyfer asedau eraill yn hytrach na nifer mwy. Awgryma hyn y bydd arbedion yn cael eu huchafu drwy greu dau gyfrwng: cyfrwng buddsoddi cyffredin unigol ar gyfer asedau rhestredig wedi'i drefnu drwy ddosbarthiad yr ased (e.e. ecwiti'r DU, ecwiti Ewropeaidd, bondiau'r DU ac ati) ac ail gyfrwng ar gyfer asedau eraill.

3.3 Gall crynodi'r Cynllun i ddau gyfrwng buddsoddi cyffredin gynyddu bod yn agored i risg. Gall cyfyngiadau capasiti gychwyn bod yn berthnasol os yw cronfa'n mynd yn rhy fawr. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn credu y dylid lliniaru'r risg os yw'r dyraniad asedau yn dal mor amrywiol ag y maent ar hyn o bryd. Nodwyd yn adroddiad Hymans Robertson na fyddai'r cyfyngiadau capasiti'n berthnasol i'r cyfrwng buddsoddi cyffredin ar gyfer asedau rhestredig os y'i buddsoddir mewn cronfeydd goddefol.

**C1. A ydych yn cytuno y byddai cyfryngau buddsoddi cyffredin yn caniatáu i gronfeydd gyflawni darbodion maint a rhoi arbedion i fuddsoddiadau rhestredig a buddsoddiadau eraill? Eglurwch os gwelwch yn dda a rhowch dystiolaeth o'ch barn.**

**C2. A ydych yn cytuno gyda'r bwriad i gadw penderfyniadau ynghylch dyrannu asedau gydag awdurdodau'r gronfa leol?**

**C3. Faint o gyfryngau buddsoddi cyffredin a ddylid eu sefydlu a pha ddosbarthiadau o asedau y dylid eu cynrychioli ar wahân ym mhob un o'r asedau rhestredig a'r cyfryngau buddsoddi cyffredin eraill?**

3.4 Gellir defnyddio'r term cyfrwng buddsoddi cyffredin neu gyfunol yn eang iawn a gall gymryd gwahanol ffurf. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ar y math penodol o gyfryngau buddsoddi cyffredin y gellid eu defnyddio. Bydd angen rhoi

ystyriaeth ofalus i drefniadau llywodraethu unrhyw gyfrwng buddsoddi cyffredin cyn y gellir datblygu unrhyw gynigion manwl.

**C4. Pa fath o gyfrwng buddsoddi cyffredin ydych chi'n credu a fyddai'n cynnig y strwythur mwyaf buddiol? Pa drefniadau llywodraethau a ddylid eu sefydlu?**

## 4 CYNNIG 2: RHEOLAETH CRONFA ODDEFOL O ASEDAU RHESTREDIG

4.1 Mae cronfeydd CPLlL yn defnyddio rheolwyr ecwiti goddefgar a gweithredol gyda rheolaeth weithredol yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml na'r goddefol gyda'r bwriad o gyflawni adenillion sy'n amgenach na'r farchnad. Roedd yr adroddiad a gynhyrchwyd i'r Llywodraeth gan Hymans Robertson yn dangos nad oedd tystiolaeth glir bod y Cynllun ar y cyfan wedi perfformio'n well na'r farchnad yn yr hirdymor. Daethant i'r casgliad y gellid bod wedi rheoli asedau rhestredig megis bondiau ac ecwiti yn oddefol heb effeithio ar berfformiad cyffredinol y Cynllun.

4.2 Adroddodd Hymans Robertson bod yr arbedion ffioedd y gellid eu cyflawni o symud i reolaeth oddefol yr asedau rhestredig yn £230 miliwn y flwyddyn ac y gallai'r gost unwaith ac am byth o gyfnewid o'r gweithredol i'r goddefol fod o gwmpas £215 miliwn sy'n debyg i'r arbedion a gyflawnir mewn blwyddyn.

4.3 Daeth adroddiad Hymans Robertson i'r casgliad os byddai'r Cynllun yn gweithredu'n gyfunol ac yn symud pob ased rhestredig i reolaeth oddefol, gellir lleihau'r ffioedd buddsoddi a'r costau trosiant hyd at £420 miliwn y flwyddyn. Byddai hyn yn arbediad sylweddol i'r cronfeydd, y cyflogwyr a threthdalwyr lleol.

4.4 Wedi ystyried y dadansoddiad hwn, cred y Llywodraeth y dylai cronfeydd wneud mwy o ddefnydd o reolaeth oddefol ar gyfer yr holl asedau rhestredig megis bondiau ac ecwiti. Byddai asedau eraill megis eiddo, isadeiledd neu ecwiti preifat yn dal i gael eu rheoli'n weithredol drwy gyfrwng buddsoddi cyffredin ar wahân.

4.5 Mae'r Llywodraeth yn dymuno edrych ar sut i sicrhau gwerth am arian drwy ddefnyddio rheolaeth oddefol tra ar yr un pryd peidio â niweidio'r enillion ar fuddsoddiadau. Mae nifer o ddewisiadau i gyflawni hyn:

- Y gofyn i symud yr holl asedau rhestredig i reolaeth oddefol
- Y gofyn i fuddsoddi canran penodol o'u hasedau rhestredig
- Y gofyn i reoli asedau rhestredig yn oddefol ar sail 'cydymffurfiwch neu eglurwch'
- Y disgwyliad i ystyried buddion asedau rhestredig a reolir yn oddefol

**C5 Yn wyneb y dystiolaeth ynghylch y costau a'r buddion cymharol o reolaeth weithredol a goddefol, gan gynnwys tystiolaeth Hymans Robertson**

**ynglŷn â pherfformiad cyfanredol, pa un o'r opsiynau uchod sy'n cynnig y gwerth gorau i'r trethdalwyr, aelodau'r Cynllun a chyflogwyr?**

## 5. YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

5.1 Yn dilyn y gwaith rhwng yr wyth cronfa bensiwn yng Nghymru, mae ymateb ar y cyd gan yr wyth cronfa wedi'i gynnig, yn seiliedig ar ganlyniadau'r prosiect cydweithio. Yn ogystal, bydd Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod gweinyddu, yn ymateb hefyd.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried unrhyw farn neu faterion y dymunent eu cynnwys yn yr ymateb gan Gyngor Gwynedd.